



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

J P Curtice
L R Jones
S Pritchard

Y Cyngorydd(wyr)

F M Gordon
H Lawson
C Anderson

Y Cyngorydd(wyr)

B Hopkins
M B Lewis

Hefyd yn bresennol:

Y Cyngorydd R V Smith (Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau)
Y Cyngorydd C Anderson (Cadeirydd - Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd)

Swyddog(ion)

David Bawden	14-19 Curriculum Officer
Gareth Borsden	Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd
Stephen Holland	Uwch-Gyfreithiwr
Helen Morgan-Rees	cyfarwyddwr addysg

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): J E Burtonshaw a/ac D W W Thomas

24 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol; y Cyngorydd S Pritchard – Eitem 4 ar yr agenda – Datganiad o Sefyllfa ar gyfer Addysg Alwedigaethol yn Abertawe – personol.

25 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

26 Datganiad Sefyllfaol ar gyfer Addysg Alwedigaethol yn Abertawe.

Cyflwynodd David Bawden adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Datblygu Polisi ac yn amlinellu'r datganiad sefyllfa presennol ar gyfer addysg alwedigaethol yn Abertawe ar gyfer plant a phobl ifanc 14-19 oed.

Amlinellodd y cefndir i'r ddarpariaeth bresennol o addysg alwedigaethol mewn ysgolion a cholegau sy'n seiliedig ar ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru, a chaiff ei phenderfynu gan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), 2009; sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, rhwydweithiau 14-19 oed, ysgolion a cholegau i weithio gyda Gweinidogion Cymru i ddarparu cwricwla lleol sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrsiau a dewisiadau ar gyfer dysgwyr.

Dywedodd fod rhaglen Prentisiaeth Iau ychwanegol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed sy'n eu galluogi i ymgymryd â llwybr galwedigaethol lefel 1 neu 2 mewn coleg lleol, gan ddatblygu sgiliau ymarferol wrth ennill cymwysterau. Datblygwyd rhaglen a adwaenir fel yr Academi Iau yn Abertawe trwy bartneriaeth ag ysgolion Abertawe a Choleg Gŵyr Abertawe ers 2019/2020.

Amlinellodd a manylodd hefyd ar y cyllid ychwanegol sydd wedi galluogi ar gyfer darparu hyfforddiant trwy brosiect Cynnydd.

Amlinellodd y meysydd cyflwyno presennol canlynol ar draws ysgolion yn Abertawe, sy'n cynnwys:

- Cyrsiau galwedigaethol a ddarperir ar safle'r ysgol gan staff yr ysgol, er enghraifft Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Cyrsiau galwedigaethol a ddarperir ar safle'r ysgol gan staff y coleg, er enghraifft Gofal Plant a Datblygu Dysgu;
- Cyrsiau galwedigaethol a ddarperir oddi ar y safle gan staff y coleg, er enghraifft Peirianeg ac Adeiladu;
- Cwrs galwedigaethol amser llawn a phrofiad sy'n ymwneud â'r gwaith (Academi Iau) a ddarperir oddi ar y safle gan staff y coleg a chysylltiadau diwydiant, er enghraifft Tirlunio a Garddwriaeth a Gwallt a Harddwch;
- Cysylltiadau â chyrsiau a mentrau sydd ar gael trwy Goleg Sir Gâr a Cholegau Castell-nedd Port Talbot;

Roedd y cysylltiadau â Gyrfa Cymru ar draws yr holl ysgolion yn Abertawe hefyd wedi'u hamlinellu wrth baratoi pobl ifanc gyda chefnogaeth, cynnwys cyflogwyr a pharodrwydd ar gyfer gwaith, yn ogystal ag effaith bosib y cwricwlwm newydd i Gymru y mae'r meysydd hyn yn rhan ohono.

Dylai'r pwysigrwydd o nodi prinder sgiliau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer swyddi yn y dyfodol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, gael ei gynorthwyo wrth symud ymlaen trwy ddatblygiad y rhaglen Sgiliau a Hyfforddiant y cytunwyd arni trwy'r Fargen Ddinesig ac a gymeradwywyd gan lywodraethau Cymru a'r DU.

Gofynnodd aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaed sylwadau ynghylch yr adroddiad a'r cyflwyniad yn enwedig ynghylch goblygiadau ac effaith y Fargen Ddinesig, agweddau at ddysgu galwedigaethol mewn ysgolion, argaeledd cyrsiau i bobl ifanc, ehangu dysgu galwedigaethol wrth symud ymlaen, nifer y bobl ifanc sy'n rhan o'r cyrsiau amrywiol a diffyg sgiliau cyflogadwyedd presennol pobl ifanc, ac ymatebodd swyddogion ac Aelod y Cabinet yn unol â hynny.

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau (Dydd Mercher, 15 Rhagfyr 2021)
Parhad

Cytunodd aelodau i ddarparu'r diweddaraf am y ddarpariaeth alwedigaethol yn Abertawe yn ogystal ag ystadegau mwy manwl ynghylch niferoedd y bobl ifanc sy'n rhan o'r cyrsiau a phrosiectau/mentrau amrywiol a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r tirlun cymwysterau presennol i gyfarfod y pwyllgor mewn tua chwe mis.

27 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.

Cyfeiriodd y cadeirydd at y cynllun gwaith fel a amlinellwyd a manylwyd arno yn yr adroddiad.

Penderfynwyd y byddai'r cynllun gwaith yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.55 pm

Cadeirydd